

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda,

Canolfan Ddeintyddol Mill
Lane

3 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	15
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	19
6.	Y Camau Nesaf.....	21
	Atodiad A.....	22
	Atodiad B.....	25

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Mill Lane, rhan o'r grŵp IDH, yn Mill Lane, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA15 3SE, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 3 Mawrth 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.¹

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/agordogfen/218839>

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Mill Lane yn darparu gwasanaethau i gleifion y GIG yn bennaf, gyda rhai cleifion preifat, yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn rhan o IDH, cwmni mawr sy'n berchen ar nifer fawr o bractisau deintyddol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, chwe nyrs ddeintyddol, rheolwr practis a dau dderbynydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Gwynnu dannedd
- Coronau a phontydd
- Dannedd gosod
- Mewnblaniadau
- Gorchuddion dannedd chwaraeon

Mae Canolfan Ddeintyddol Mill Lane yn bractis cymysg sy'n darparu triniaeth breifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

4. Crynodeb

Ymchwiliodd AGIC i sut mae Canolfan Ddeintyddol Mill Lane yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen "Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru".

Er bod yr ymateb i'r holiadur y gwnaethom ei ddsbarthu yn wael, dywedodd y rhai a wnaeth ddychwelyd y ffurflenni a'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon ar safon y gofal a gawsant yn y practis. Roedd y cleifion hefyd yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth am eu triniaeth; fodd bynnag, ni chadarnhawyd hyn yn y cofnodion a welsom.

O'n gwaith craffu ar y ddogfennaeth, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gofal a thriniaeth bob amser yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd a oedd yn anelu at sicrhau diogelwch a lles y claf. Oherwydd y pryderon hyn, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn am gynllun gweithredu gydag amserlenni yn cadarnhau sut a phryd y byddent yn mynd i'r afael â'r problemau. Gwnaethom hefyd rannu'r wybodaeth â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Gwnaeth y bwrdd iechyd ymweld â'r practis yr wythnos wedyn. Gwnaethom dderbyn ymateb boddhaol hefyd, o fewn yr amserlenni a bennwyd, gan reolwr y practis. Gwnaethom siarad hefyd â chynrychiolydd o'r grŵp IDH, gan drafod y canfyddiadau ac yn tynnu sylw at eu cyfraniad at roi'r cynllun gweithredu ar waith.

Er inni gael sicrwydd ar ddiwrnod yr arolygiad bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol, mae angen gwella perthnasau gwaith; yn benodol, mae angen i ddeintyddion unigol ymgysylltu'n well.

Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel. Gwelsom ei fod yn lân a chydag enghreifftiau o arferion da, megis ystafell ddadheintio neilltuedig. Fodd bynnag, roedd pryderon sylweddol ynghylch y diffyg golau naturiol ac awyru, y cyfleusterau toiled a'r arwyddion gwybodaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Er bod yr ymateb i'r holiadur yn wael, dywedodd y rhai a wnaeth ddychwelyd y ffurflenni a'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon ar safon y gofal a gawsant yn y practis. Roeddent hefyd yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth; fodd bynnag, ni chadarnhawyd hyn yn y cofnodion a welsom.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu 20 o holiaduron AGIC i gleifion er mwyn ceisio casglu eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Hefyd, gwnaethom siarad â nifer fach o gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad (dau o bobl).

Ar ôl sawl cais i'r staff yn y practis gan yr arolygydd, dim ond saith holiadur a ddychwelwyd. Roedd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn ogystal â'r bobl y siaradwyd â nhw wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers rhwng dwy a saith blynedd. Nododd pob un o'r naw claf bod tîm y practis yn rhoi croeso iddynt bob amser.

Roedd pawb yn teimlo eu bod yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal, a dywedodd un claf:

"Yn bendant. Maen nhw'n sicrhau eu bod yn esbonio'n drwyadl iawn yr hyn sy'n debygol o ddigwydd."

Datgelodd archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a sgysiau gyda thri o'r deintyddion ffyrdd gwahanol o weithio. Un deintydd yn unig a gadarnhaodd fod opsiynau triniaethau'n cael eu trafod â'r cleifion ar ôl ymgynghoriadau. Roedd y cofnodion ar gyfer y deintydd hwn yn dangos eu bod yn cael eu diweddarau ar ôl pob ymweliad, gan nodi manylion y triniaethau a roddwyd i'r cleifion, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, yn y nodiadau cleifion eraill a welsom, roedd yn amlwg mai dim ond weithiau yr oedd y deintyddion eraill yn cwblhau cynlluniau triniaeth neu'n trafod triniaethau â chleifion; roedd un deintydd nad oedd yn cwblhau unrhyw gynlluniau triniaeth, nac yn cofnodi trafodaethau ynghylch opsiynau triniaeth neu gydsyniad i gael triniaeth.

O ganlyniad i'r canfyddiadau uchod, roedd AGIC yn pryderu'n ddigonol i anfon llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn am gynllun gweithredu gydag amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn.

Gwelliannau sydd eu hangen

Gweler Atodiad A am welliannau sicrwydd ar unwaith ynghylch cynlluniau triniaeth.

Rhaid i bob claf gael cynlluniau deintyddol ysgrifenedig ar gyfer pob cwrs o driniaeth, sy'n cael eu diweddarau os bydd y driniaeth yn newid.

Rhaid i bob claf gael esboniad o'r opsiynau triniaeth.

Rhaid i'r holl gleifion gydsynio i gael triniaeth, a dylid cofnodi'r cydsyniad a dderbyniwyd.

Dangosodd yr ymatebion i'r cwestiwn ynglŷn â sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau y byddai'r holl gleifion yn gwybod sut i gael mynediad at ofal pan oedd y practis ar gau. Dywedodd rheolwr y practis y gellid cysylltu â'r deintydd ar alwad trwy Galw Iechyd Cymru neu drwy ffonio rhif a oedd ar gael ar beiriant ateb y practis.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiad o flaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym pan oedd angen. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon â'r system hon ac nad oeddent wedi dioddef unrhyw oedi o ran amser eu hapwyntiadau.

Roedd proses gwyno ar wal yr ystafell aros ar y llawr gwaelod, ac roedd hon yn gyfredol ac yn gyson â'r weithdrefn gwyno a elwir "Gweithio i Wella".² Gwnaethom nodi bod angen ychwanegu cyfeiriad AGIC ar gyfer cleifion preifat a chyfeiriad y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer cleifion y GIG. Pan ofynnwyd i gleifion a fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu godi pryder, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt na fyddent yn gwybod. Dywedodd pedwar claf y byddent yn gwybod, ond nid oedd neb yn gwybod y gallent gysylltu ag AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ychwanegu cyfeiriadau AGIC a'r Cyngor Iechyd Cymuned i'r weithdrefn gwyno.

Nid oedd taflen wybodaeth ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth berthnasol ynghylch y practis, gan gynnwys sut i godi pryder (cwyn). Roedd hyn am fod y cwmni'n ailfrandio, ac roedd yr holl arwyddion, taflenni a hysbysfyrdau'n cael

² Gweithio i Wella yw'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon (cwynion), ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn faterion a nodir yn sgil digwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac o ran cyrff GIG Cymru, honiadau ynglŷn â gwasanaethau a ddarperir gan gorff sy'n gyfrifol yng Nghymru.

eu diweddar. Gwnaeth trafodaethau â'r rheolwr ystadau, a oedd yn ymweld ar y diwrnod hwnnw, awgrymu y byddai'r gwaith sydd ei angen yn Mill Lane yn dechrau ar y dydd Llun dilynol, a'r nod oedd y byddai'n gorffen ymhen tair wythnos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn gwneud taflenni gwybodaeth i gleifion (a ddylai amlinellu'r gwasanaethau a gynigir gan y practis, gan gynnwys y broses gwyno) yn hygyrch i gleifion.

Pan holwyd y cleifion am eu barn ar y gwasanaeth cyffredinol iddynt ei dderbyn, dywedodd bron pawb eu bod yn fodlon. Cafwyd sylwadau megis:

“Ydy, yn y gorffennol a heddiw.”

“Ydy, ardderchog.”

Gwnaeth trafodaeth bellach gyda'r staff a gwaith arsylwi ar gynllun yr adeilad ddangos bod cyfleusterau ar gael ar gyfer pobl lai abl. Fodd bynnag, roedd y toiled hygyrch allan o ddefnydd ar ddiwrnod yr arolygiad, a chadarnhaodd y staff fod problem gydag un o bibellau'r garthffos ac nad oedd yn bosib defnyddio'r toiled yn aml.

Yr hyn sydd angen ei wella

Os yw'r practis yn cynnig cyfleusterau toiled hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd a defnyddwyr cadair olwyn, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

O'n gwaith craffu ar y ddogfennaeth, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gofal a thriniaeth bob amser yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd a oedd yn anelu at sicrhau diogelwch a lles y claf. Oherwydd y pryderon hyn, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn am gynllun gweithredu gydag amserlenni yn cadarnhau sut a phryd y byddent yn mynd i'r afael â'r problemau. Gwnaethom hefyd rannu'r wybodaeth â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Gwnaeth y bwrdd iechyd ymweld â'r practis yr wythnos wedyn.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion yn y practis yn cael eu cadw ar gronfa ddata gyfrifiadurol, ac roedd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chadw ar bapur. Gwnaethom edrych ar sampl o 25 o gofnodion deintyddol (h.y. pum cofnod cleifion ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis), a dangosodd hyn fod y cofnodion, ac eithrio dau ddeintydd, o ansawdd gwael, gydag ychydig iawn o wybodaeth yn cael ei chofnodi. Roedd angen gwelliant yn y meysydd canlynol:

- Cynllunio triniaeth
- Opsiynau triniaeth
- Cydsynio
- Archwiliadau o feinwe feddal
- Hanes deintyddol blaenorol
- Cydlofnod gan y deintydd ar hanesion meddygol
- Hanes cymdeithasol
- Rheswm dros ddod
- Symptomau

- Cyfnod galw yn ôl o fewn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)³
- Pan roddwyd anesthetig lleol (chwistrelliad), ni chofnodwyd y swm na'r lleoliad
- Anghysondeb o ran enwau a gofnodwyd, h.y. enw cyn priodi ac enw priod yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol

O ganlyniad i'n pryderon ynghylch y diffyg dogfennau, gwnaethom roi adborth ar lafar i'r deintyddion unigol a rheolwr y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom hefyd gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis ar 5 Mawrth 2015, gan ofyn am gynllun gweithredu gydag amserlenni ar gyfer cyflawni'r gwelliant a nodwyd. Roedd angen sicrwydd arnom fod systemau wedi cael eu datblygu i sicrhau y gellid cynnal safonau cofnodi gwell. Cyflwynwyd hyn ar 19 Mawrth 2015, a rhoddwyd sicrwydd boddhaol o'r camau a gymerwyd.

Pan wnaethom drafod ansawdd gwael y cofnodion â'r deintyddion, daeth yn amlwg nad oedd un deintydd yn ymwybodol bod angen cofnodi rhai o'r meysydd a nodwyd. Mae hyn yn dangos bod angen hyfforddiant mewn cadw cofnodion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r deintyddion gael hyfforddiant mewn cadw cofnodion sy'n cyrraedd safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Cadw cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng

Wrth archwilio'r modd y cedwir cyffuriau brys yn y practis, gwelwyd eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau newydd yn disodli'r hen rai pan fydd y dyddiad arnynt yn dod i ben.

Roedd swyddog cymorth cyntaf pwrpasol, ac roedd y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei storio y tu ôl i ddesg y dderbynfa, o fewn cyrraedd hawdd. Roedd offer angenrheidiol ar gyfer achos o argyfwng ar gael, ac roedd rhai eitemau penodol wedi eu storio ym mhob ystafell driniaeth yn ogystal ag yn y pecyn cymorth cyntaf.

³ Mae canllaw clinigol ail-alw deintyddol NICE yn helpu clinigwyr i benderfynu pa mor aml rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol o ran bodloni anghenion cleifion unigol.

Dadheintio

Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau a oedd ar waith ar gyfer dadheintio offer, a gwelsom fod mesurau priodol ar waith, gan gynnwys ystafell ddadheintio neilltuedig. Roedd prosesau clir, a gwelsom dystiolaeth bod gwaith cynnal a chadw a phrofi cyfarpar a ddefnyddir i lanhau offer deintyddol yn cael ei gofnodi, er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Byddai'n fuddiol pe bai arwyddion clir yn yr ystafell i ddangos llwybrau o ddefnyddiwyd i lân. Gwelsom hefyd fod offerynnau sterileiddiedig yn cael eu rhoi mewn bagiau a'u storio'n briodol, gyda'r dyddiad sterileiddio a'r dyddiad defnyddio wedi eu cofnodi. Mae hyn yn dystiolaeth o arferion nodedig, ac yn lleihau'r siawns o wneud camgymeriadau.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod archwiliadau (gwiriadau) rheolaidd yn cael eu cynnal, bob chwarter, mewn perthynas â gofynion rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05).⁴

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis gynnal archwiliadau o ofynion rheoli heintiau bob tri mis, yn unol â WHTM 01-05, a sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau priodol ar gyfer dadhalogi.

Triniaeth radiograffeg ac offer

Daethom o hyd i dystiolaeth bod cleifion wedi derbyn radiograffau anaddas o ansawdd gwael (sganiau pelydr-X). Gwnaethom nodi'r materion canlynol:

- Nid oes cyfiawnhad dros wneud y sganiau pelydr-X
- Nid oes gwerthusiad clinigol o'r sganiau pelydr-X
- Arferion gwael iawn, e.e. cleifion yn dal i wisgo gemwaith
- Sawl gwall prosesu
- Sganiau pelydr-X yn cael eu hail-wneud (hyd at bedair gwaith)

⁴ <http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=cy>. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol yng Nghymru.

- Delweddau heb eu labelu
- Dim dyddiadau wedi eu cofnodi ar gyfer dyddiad y pelydr-X, dyddiad geni'r claf
- Dim sganiau pelydr-X cyn coronau
- Dim sganiau pelydr-X *bitewing* (math arbennig o belydr-x a ddefnyddir i ddod o hyd i bydredd)
- Dannedd a dynnwyd heb wneud sganiau pelydr-X
- Dim sganiau pelydr-X er bod clefyd periodontol gweithredol (llid o amgylch y dant)
- Dim sganiau pelydr-X i gleifion newydd
- Un claf newydd gyda gwaith pontio a cholli asgwrn, clefyd periodontol gweithredol – ni wnaed sganiau pelydr-X

Roedd un deintydd a wnaeth ychydig iawn o sganiau pelydr-X o gwbl. Nid yw'r materion hyn yn sicrhau bod arferion diogel ac effeithiol, ac maent yn destun pryder sylweddol.

Canfuom hefyd nad oedd golau na rybudd clywadwy wrth i'r peiriant pelydr-X gael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn golygu efallai na fyddai'r staff yn gwybod pryd y cymerwyd y sgan pelydr-X, a gallai hyn arwain at gymryd sganiau pelydr-X ychwanegol yn ddiangen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â radiograffeg ac anesthetig lleol yn orfodol o dan "Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru" (2010), ac felly mae'n rhaid cadw'r rhain.

Nodwyd rhagor o bryderon ar ôl craffu ar y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys dogfennau a chanllawiau yn ymwneud â defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Er enghraifft:

- Roedd copi o lythyr a anfonwyd at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ymwneud ag amddiffyn rhag ymbelydredd, ond ni chofnodwyd unrhyw ymateb.
- Nid oedd cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd penodol ar gael.
- Er bod archwiliadau sicrwydd ansawdd delweddau bob chwe mis, ni nodwyd unrhyw un o'r pryderon uchod.
- Nid oedd cofnod o brofi'r peiriant pelydr-X.

- Dywedodd y staff fod ansawdd y cyfarpar yn wael a'u bod wedi rhoi gwybod i'r grŵp IDH ar sawl achlysur.

Roedd y gwiriad manwl o'r cyfarpar ymbelydredd yn gyfredol, a bydd yr archwiliad nesaf yn 2017. Canfuom hefyd nad oedd hyfforddiant ymbelydredd pob aelod o staff yn gyfredol. Trafodir hyn yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gweler Atodiad A ar gyfer gwelliannau sicrwydd ar unwaith ynghylch hyfforddiant ymbelydredd.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y cedwir cofnodion manwl ynglŷn ag offer radiograffeg a gweithdrefnau amddiffyn rhag pelydredd.

Ymarfer Clinigol

Gwnaethom nodi meysydd o arferion clinigol a oedd yn destun pryder inni, megis:

- Ni weithredwyd ar archwiliadau periodontol sylfaenol
- Defnydd amhriodol a gorddefnydd o wrthfotigau:
 - Wedi eu rhagnodi heb ddiagnosis na nodiadau
 - Wedi eu rhagnodi ar gyfer diagnosis alergedd
 - Sawl presgripsiwn heb roi na chynllunio triniaeth, er y cofnodwyd bod pydredd yn bresennol
- Pont breifat a osodwyd dros wreiddiau sy'n weddill
- Codi tâl amhriodol i'r bwrdd iechyd am gleifion y GIG, h.y.
 - Codi tâl am driniaeth a thynnu dannedd ar yr un dant yn ystod yr un cwrs triniaeth
 - Sawl cais brys, a chyrsiâu'n agor eto, cyn yr archwiliad nesaf i barhau â'r driniaeth

Yr hyn sydd angen ei wella

Gweler Atodiad A ar gyfer gwelliannau sicrwydd ar unwaith o ran arferion clinigol.

Mae angen i'r cwmni ddatblygu system ar gyfer archwiliadau clinigol/adolygiadau gan gymheiriaid rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y safonau ar gyfer ymarfer clinigol yn cael eu gwella a'u cynnal.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Er inni gael sicrwydd ar ddiwrnod yr arolygiad bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol, mae angen gwella perthnasau gwaith; yn benodol, mae angen i ddeintyddion unigol ymgysylltu'n well.

Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion y GIG yn bennaf, gyda rhai cleifion preifat. Ar adeg ein harolygiad, roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd, ac roedd prif nyrs yn ei gynorthwyo.

Gwelsom dystiolaeth o berthnasau gweithio da a chllir rhwng rheolwr y practis a'r nyrs arwain, ac roedd hyn yn sicrhau bod effeithiolrwydd rheolaethol a chlinigol yn cael eu goruchwyllo mewn ffordd gyson. Dywedodd staff nyrsio a staff y dderbynfa wrthym fod ethos gwaith agored a thryloyw a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu siarad â rheolwr y practis neu'r arweinydd clinigol pe bai ganddynt unrhyw broblemau yn ymwneud â gwaith.

Fodd bynnag, darganfuwyd drwy drafodaethau pellach â'r rheolwyr a'r staff bod y berthynas rhwng deintyddion unigol a staff eraill yn anodd, ac nid oedd y deintyddion yn ymgysylltu llawer. Rhoddwyd enghreifftiau o ymddygiad amhroffesiynol yn ystod cyfarfodydd tîm a diwrnodau hyfforddiant. Mae hyn yn broblem i aelodau staff a rheolwr y practis, nad yw'n rheoli'r deintyddion yn uniongyrchol. Mae angen meithrin cwrteisi a pharch proffesiynol rhwng yr holl staff er mwyn sicrhau gwaith tîm cydlynol.

Dyweddodd staff wrthym fod cyfarfodydd staff misol, a chynhaliwyd yr un diwethaf ar 14 Chwefror 2015. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i fynegi unrhyw bryderon, rhannu gwybodaeth newydd/perthnasol â'r tîm, a thrafod unrhyw wersi a ddysgwyd. Fodd bynnag, yn y cofnodion y gwnaethom eu darllen, ni welsom dystiolaeth o gynnal trafodaethau ynghylch anawsterau'r berthynas rhwng y deintyddion a'r aelodau staff eraill, a byddai mynd i'r afael â hyn yn fuddiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r cwmni roi cefnogaeth i'r staff yn y practis er mwyn annog gwaith tîm a meithrin amgylchedd lle mae'r naill yn parchu'r llall.

Gwnaeth gwaith craffu ar ystod o bolisïau a gweithdrefnau ddangos bod y gwasanaeth wedi ei danategu gan amrywiaeth o systemau rheoli a phrosesau sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth bod y rhain wedi cael eu cynnwys mewn arferion dyddiol er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn amserol. Roedd y polisïau i gyd wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl y gofyn, a chofnodwyd y dyddiadau

adolygu. Roedd y staff yn gallu cael mynediad at y polisiâu hyn o fewn y practis er mwyn gwirio eu bod yn eu deall a sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu cywir. Fodd bynnag, gwelsom ddau faes sydd angen sylw: mae angen datblygu polisiâu amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a pholisiâu preifatrwydd ac urddas.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu polisi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a pholisi preifatrwydd ac urddas cleifion.

Nid oedd gan y practis system reolaidd o archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid i sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig o safon dderbyniol. Dywedwyd wrthym fod archwiliad ar-lein blynyddol y bwrdd iechyd wedi'i gwblhau, ond nid oedd tystiolaeth o unrhyw archwiliadau mewnol o arferion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu system archwilio ac adolygu i sicrhau bod ansawdd a diogelwch y gwasanaeth a gynigir o safon foddhaol.

Nid oedd gan y practis system i asesu safbwyntiau cleifion yn rheolaidd a gweithredu arnynt. Roeddent wedi gofyn i gleifion gwblhau holiaduron bodlonrwydd yn achlysurol, ond roedd hyn yn cyd-fynd ag adolygiad blynyddol y bwrdd iechyd fel rheol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu system o werthuso a gwella parhaus trwy adborth cleifion, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion ei boblogaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Roedd y rhain yn cadarnhau bod gan staff fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r nyrsys wedi gwneud hyfforddiant ymbelydredd gofynnol o fewn yr amserlen a bennwyd, ac nid oedd yr hyfforddiant amddiffyn plant/amddiffyn oedolion agored i niwed yn gyfredol.

Gwelliannau sydd eu hangen

Gweler Atodiad A ar gyfer gwelliannau sicrwydd ar unwaith ynghylch hyfforddiant ymbelydredd.

Mae angen i'r holl staff wneud hyfforddiant amddiffyn plant/amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus aelodau staff unigol, sy'n sicrhau bod eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff, sy'n ofynnol yn ôl safonau "Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well".

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan yr holl staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.⁵

Roedd cytundeb ffurfiol gyda'r bwrdd iechyd ar gyfer unrhyw broblemau iechyd galwedigaethol y gallai fod gan y staff, megis brechlynnau, neu pe bai achos o anaf ag offer miniog. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff y gwiriadau priodol i atal unrhyw groes-heintio gyda chleifion.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis am gynorthwyo staff newydd, a dywedwyd wrthym fod gan y practis raglenni sefydlu ac ymgyfarwyddo ffurfiol. Rhoddwyd copïau o'r rhain inni i'w darllen.

Fe'n hysbyswyd gan y staff bod unigolyn penodol a oedd yn gyfrifol am gymorth cyntaf ac iechyd a diogelwch. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus/cyflogwr gyfredol i'w gweld ar wal yr ystafell aros. Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC ar gael, ond roedd angen eu diweddarau. Anfonwyd y wybodaeth sydd ei hangen i AGIC yn electronig er mwyn iddynt allu diweddarau'r tystysgrifau. Roedd staff a chleifion a oedd yn ymweld â'r safle yn gallu gweld yr holl hysbysiadau hyn. Cafwyd rhestrau prisiau ar gyfer cleifion y GIG ond nid ar gyfer triniaeth breifat.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis arddangos i'r cyhoedd restr o brisiau ar gyfer triniaethau preifat.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, ac roedd y rhain yn dangos bod systemau a phrosesau priodol ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael ei archwilio'n brydlon ac yn unol â gofynion gorfodol.

⁵ Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Cyflwynodd y rhain y gofynion cyfreithiol o ran deintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddiaeth preifat.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth ar yr achlysur hwn, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg ynglŷn â hyn yn yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel. Gwelsom ei fod yn lân a chydag enghreifftiau o arferion da, megis ystafell ddadheintio neilltuedig. Fodd bynnag, roedd pryderon sylweddol ynghylch y diffyg golau naturiol ac awyru, y cyfleusterau toiled a'r arwyddion gwybodaeth gofynnol.

Mae Canolfan Ddeintyddol Mill Lane yn bractis sefydledig sydd wedi'i leoli yn nhref Llanelli. Mae maes parcio bach neilltuedig wrth ymyl y practis.

Mae gan y practis dderbynfa, ac mae'r holl ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear. Mae dau fan aros. Y dderbynfa yw'r prif fan, ac mae man llai o faint yn y cyntedd. Gwnaeth arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad gadarnhau bod meintiau'r mannau aros yn briodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth a bod yr ardaloedd yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu bod yn sicr eu bod wedi eu goleuo a'u hawyru'n foddhaol gan nad oedd ffenestri yno heblaw am y rhain yn y dderbynfa. Roedd y practis cyfan yn dibynnu ar fflworolau ac aerdymheru. Nid yw'n ymddangos bod hyn yn gydnaws ag amgylchedd gwaith iachus. Nid oes golau nac awyru naturiol, a dywedodd y staff wrthym fod hyn yn creu problemau gydag agweddau penodol ar driniaeth. Er enghraifft, dywedodd y staff wrthym fod cydweddu lliw coronau'n anodd am eu bod yn cael eu heffeithio gan y math o olau yr oeddent yn gweithio ynddo.

Mae ystafell staff addas ar gael, sy'n brif fan cyfarfod y staff er mwyn iddynt drafod a rhannu gwybodaeth. Roedd toiledau a oedd yn gweithio, ond byddent yn elwa ar gael eu hailaddurno. Roeddent hefyd yn drewi ar ddiwrnod yr arolygiad, a dywedodd y rheolwr ystadau wrthym fod hyn yn digwydd yn aml gan fod y toiled hygyrch yn dueddol o gael ei flocio, ac roedd hyn yn effeithio ar y toiledau cyfagos.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn gyffredinol y tu mewn a'r tu allan. Roedd gan yr ystafell driniaeth gyntaf arogl cemegol cryf iawn, a dywedodd y staff fod hwn yn bresennol am y rhan fwyaf o'r amser. Tynnwyd sylw'r rheolwr ystadau at hwn hefyd.

Gwelsom fod diffoddwyr tân wedi'u lleoli mewn mannau strategol, ac roeddent wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Gwelwyd bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a chadw cofnodion papur ac electronig yn ddiogel, a bod system addas wrth gefn ar gyfer cofnodion electronig.

Nid oedd enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis wedi cael eu harddangos ar y wal y tu allan i'r practis, ac nid oedd rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, gan gynnwys eu rhifau cofrestru (lle bo'n briodol) a'u dynodiad, wedi'i harddangos y tu mewn. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddai hysbysiadau newydd ar ôl cwblhau'r broses ailfrandio.

Gwelliannau sydd eu hangen

Rhaid i'r practis arddangos gwybodaeth am staff sy'n gweithio yn y practis (yn cynnwys deintyddion), gan gynnwys eu teitl a rhif eu cofrestriad pan fo hynny'n berthnasol.

Roedd contractau ar waith ar gyfer symud gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus oddi yno, ac roedd y bagiau a'r biniau'n cael eu storio'n ddiogel. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd diogel i'r cleifion allu mynd i mewn ac i'r staff weithio.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau gwelliannau sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella mewn perthynas â phob maes a nodwyd. Ceir manylion hyn yn Atodiad A ac Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Mae'r practis wedi cwblhau cynllun gwella sicrwydd ar unwaith, a werthuswyd gan AGIC, a chanfuwyd ei fod yn rhoi digon o sicrwydd ynghylch y camau a gymerwyd.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Mill Lane yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella Sicrwydd ar Unwaith

Practis: Canolfan Ddeintyddol Mill Lane

Dyddiad yr Arolygiad: 3 Mawrth 2015

Argymhelliad	A	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf			
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru			
Rhaid i'r holl staff, gan gynnwys deintyddion, gael tystysgrif hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio gyfredol (o fewn y pum mlynedd ddiwethaf). Rheoliadau IRMER 2000.	Mae gan yr holl staff, gan gynnwys deintyddion, dystysgrifau ymbelydredd cyfredol, ac mae pob un bellach yn cael ei storio yn y practis.	Hayley Griffiths	10.3.15
Mae angen i bob deintydd archwilio ei arferion a chofnodi radiograffeg unigol er mwyn sicrhau bod eu hymyrraeth glinigol yn cydymffurfio â Rheoliadau IRMER 2000; Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd	Mae'r holl staff wedi cwblhau archwiliadau ymbelydredd, gyda thystiolaeth wedi'i chadw yn y practis. Mae'r holl ganfyddiadau wedi cael eu rhannu gyda'r clinigwyr, ac mae pob clinigwr wedi adolygu, cymeradwyo a llofnodi'r cynlluniau	Hayley Griffiths	11.3.15

Argymhelliad	A	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (7a-c; 20) a Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol Egwyddor 3, 4, 7.	gweithredu.		
Mae angen i bob deintydd archwilio nodiadau a chynlluniau triniaeth cleifion unigol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol Egwyddor 3, 4, 7; Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well 2007 (7a; 8a; 9ab; 20a).	Mae'r holl ddeintyddion wedi cwblhau archwiliad o nodiadau a chynlluniau triniaeth cleifion unigol. Mae'r holl ganfyddiadau wedi cael eu rhannu gyda'r clinigwyr, ac mae pob clinigwr wedi adolygu, cymeradwyo a llofnodi'r cynlluniau gweithredu.	Hayley Griffiths	11.3.15
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
Mae angen i'r practis wella'r perthnasau gwaith; yn benodol, mae angen i ddeintyddion unigol ymgysylltu'n well er mwyn cyrraedd safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Egwyddor 6.	Mae'r holl adborth gan reolwr y practis wedi ei rannu mewn cyfarfod practis lle roedd yr holl staff, gan gynnwys pob clinigwr, yn bresennol. Siaradodd yr holl staff am wella perthnasau gwaith. Hysbyswyd holl staff y practis am bwysigrwydd mynychu pob cyfarfod practis a chytunodd pawb i fynychu a llofnodi'r holl waith papur a ddisbarthir a chofnodion pob cyfarfod. Mewnbyn IDH – mae angen inni ddarganfod beth yw'r problemau/pryderon; nid oes cynllun gweithredu clir heblaw am i bob aelod o staff fynychu cyfarfodydd practis. Mae Cyfarwyddwr Clinigol IDH ar gyfer y rhanbarth wedi ymweld â'r	Hayley Griffiths	11.3.15

Argymhelliad	A	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>practis a bydd yn cynnal cyfarfodydd un i un gyda phob un o'r clinigwyr. Rheolwr y practis/rheolwr datblygu'r ardal i gynnal cyfarfodydd un i un gyda'r holl staff; bydd adborth ar gyfathrebu yn y practis yn cael ei drafod, a chesglir syniadau ynghylch sut y gellid gwella hyn a beth yw'r problemau penodol. Rheolwr y practis i drafod gyda'r rheolwr datblygu'r ardal a llunio cynllun ar sut i wella prosesau cyfathrebu/adborth. IDH i archwilio'r practis er mwyn pennu a yw'n cadw at holl brosesau'r cwmni, h.y. cynnal cyfarfodydd practis yn fisol.</p>		
Ansawdd yr Amgylchedd			

Atodiad B

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol Mill Lane

Dyddiad yr Arolygiad: 3 Mawrth 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
Tudalen 6	Rhaid i bob claf gael cynlluniau deintyddol ysgrifenedig ar gyfer pob cwrs o driniaeth, sy'n cael eu diweddarau os bydd y driniaeth yn newid. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 9a			
Tudalen 7	Rhaid i'r holl gleifion gael esboniad o'r opsiynau triniaeth. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 9b			
Tudalen 7	Rhaid i'r holl gleifion gydsynio i driniaeth. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 9d			
Tudalen	Mae angen i'r practis ychwanegu cyfeiriadau			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
7	AGIC a'r Cyngor Iechyd Cymuned i'r weithdrefn gwyno. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 23c			
Tudalen 7	Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn gwneud taflenni gwybodaeth i gleifion (a ddylai amlinellu'r gwasanaethau a gynigir gan y practis, gan gynnwys y broses gwyno) yn hygyrch i bobl. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 18d			
Tudalen 8	Os yw'r practis yn cynnig cyfleusterau toiled hygyrch i gleifion anabl, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 12b.			
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
Tudalen 10	Mae angen i'r deintyddion gael hyfforddiant mewn cadw cofnodion sy'n cyrraedd Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 26b,d. Safon 4.1. y Cyngor Deintyddol Cyffredinol			
Tudalen	Mae'n rhaid i'r practis gynnal archwiliadau o			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	ofynion rheoli heintiau bob tri mis, yn unol â WHTM 01-05, a sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau priodol ar gyfer dadhalogi. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 6c; 13a-e.			
Tudalen 12	Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â radiograffeg ac anesthetig lleol yn orfodol o dan "Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru (2010), ac felly mae'n rhaid cadw'r rhain. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 15a; 20c.			
Tudalen 12	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y cedwir cofnodion manwl ynglŷn ag offer radiograffeg a gweithdrefnau amddiffyn rhag pelydredd. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 20c.			
Tudalen 13	Mae angen i'r cwmni ddatblygu system ar gyfer archwiliadau clinigol/adolygiadau gan gymheiriaid rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y safonau ar gyfer ymarfer clinigol yn cael eu gwella a'u cynnal. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 22b.			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Tudalen 14	Mae angen i'r cwmni roi cefnogaeth i'r staff yn y practis er mwyn annog gwaith tîm a meithrin amgylchedd lle mae'r naill yn parchu'r llall. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 22b.			
Tudalen 14	Mae angen i'r practis ddatblygu polisi amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a pholisi preifatrwydd ac urddas cleifion. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 10;11a-d.			
Tudalen 15	Mae angen i'r practis ddatblygu system archwilio ac adolygu i sicrhau bod ansawdd a diogelwch y gwasanaeth a gynigir o safon foddhaol. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 22b.			
Tudalen 15	Mae angen i'r practis ddatblygu system o werthuso a gwella parhaus trwy adborth cleifion, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion ei boblogaeth. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Well Adran 5b,c.			
Tudalen 15	Mae angen i'r holl staff cofrestredig sy'n gwneud gwaith yn ymwneud â phelydrau-X gael hyfforddiant ymbelydredd cyfredol. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 16e;26b.			
Tudalen 15	Mae angen i'r holl staff wneud hyfforddiant amddiffyn plant/amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 11c.			
Tudalen 16	Mae angen i'r practis arddangos i'r cyhoedd restr o brisiau ar gyfer triniaethau preifat. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 18d.			
Ansawdd yr Amgylchedd				
Tudalen 18	Mae angen i'r practis gael rhestr o ddeintyddion, eu cymwysterau a'u rhifau cofrestru, y tu allan i'r practis. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 18d.			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 18	Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a'u rhifau cofrestru pan fo hynny'n berthnasol. Safonau Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well Adran 18d.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio):

Teitl:

Dyddiad: